OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 No. 1214

# Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Darpariaethau Cyffredinol) (Cymru) (Rhif 2) 2008

## RHAN 3

ATAL CERBYDAU RHAG SYMUD

**Terfynau ar y pŵer i atal cerbydau rhag symud**

**8.**—(1) Rhaid peidio â gosod dyfais sy'n atal cerbyd rhag symud ar gerbyd os arddangosir ar y cerbyd—

(a) bathodyn cyfredol person anabl; neu

(b) bathodyn cyfredol a gydnabyddir.

(2) Mewn achos y byddai dyfais sy'n atal cerbyd rhag symud wedi cael ei gosod ar gerbyd oni bai am baragraff (1)(a), os nad oedd y cerbyd yn cael ei ddefnyddio—

(a) yn unol â rheoliadau o dan adran 21 o Ddeddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970(**1**)

(b) mewn amgylchiadau sy'n dod o fewn adran 117(1)(b) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**2**) (defnydd lle y byddai consesiwn person anabl ar gael),

bydd y person â rheolaeth dros y cerbyd yn euog o dramgwydd ac yn atebol ar gollfarn ddiannod i ddirwy na fydd yn fwy na lefel 3 ar y raddfa safonol.

(3) Mewn achos y byddai dyfais sy'n atal cerbyd rhag symud wedi cael ei gosod ar gerbyd oni bai am baragraff (1)(b), os nad oedd y cerbyd yn cael ei ddefnyddio—

(a) yn unol â rheoliadau o dan adran 21A o Ddeddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970(**3**);

(b) mewn amgylchiadau sy'n dod o fewn adran 117(1A)(b) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**4**)(defnydd lle y byddai consesiwn person anabl ar gael yn rhinwedd arddangos bathodyn nad yw'n fathodyn Prydain Fawr),

bydd y person â rheolaeth dros y cerbyd yn euog o dramgwydd ac yn atebol ar gollfarn ddiannod i ddirwy na fydd yn fwy na lefel 3 ar y raddfa safonol.

(4) Rhaid peidio â gosod dyfais atal cerbyd rhag symud ar gerbyd sydd mewn man parcio o ran tramgwydd sy'n golygu methiant, neu'n codi o fethiant—

(a) i dalu tâl parcio ynglŷn â'r cerbyd;

(**1**) 1970 p.44: o ran Cymru, diwygiwyd adran 21 gan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (p.70), Atodlen 30, gan Ddeddf Trafnidiaeth 1982 (p.49) adran 68, gan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (p.27), Atodlen 13, gan Ddeddf Llywodraeth Leol 1985 (p.51), Atodlen 5, paragraff 1, gan Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p.40), adran 35(2)-(5), Atodlen 8, gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994, Atodlen 10, paragraff 8, Atodlen 18, gan Ddeddf Rheoli Traffig 2004 adran 94(1)-(4) a chan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005 (p.13) Atodlen 1, paragraff 41.

(**2**) 1984 (p.27); o ran Cymru amnewidiwyd adran 117(1) gan Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 adran 35(6) fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005, Atodlen 1, paragraff 44(1), (2) a chan Ddeddf Rheoli Traffig 2004, adran 94(5).

(**3**) Mewnosodwyd adran 21A gan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005, adran 9.

(**4**) Mewnosodwyd is-adran (1A) gan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005, Atodlen 1, paragraff 44.

(b) i arddangos tocyn neu ddyfais parcio; neu

(c) i symud y cerbyd o'r man parcio erbyn diwedd y cyfnod y talwyd y tâl priodol amdano,

nes bod y cyfnod priodol wedi mynd heibio ers rhoi'r hysbysiad o dâl cosb o dan reoliad 5 o Reoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Hysbysiadau Tâl Cosbau, Gorfodi a Dyfarnu) (Cymru) 2008 ynglŷn â'r tramgwydd.

(5) At ddibenion paragraff (4) y cyfnod priodol yw—

(a) yn achos cerbyd y mae 3 thâl cosb yn ddyledus yn ei gylch, 15 munud;

(b) mewn unrhyw achos arall, 30 munud.